## Y Grŵp Rapporteur ar Ddwyieithrwydd
## Papur 1: 25 Mawrth 2010

### Cyflwyniad i Bwyllgor Adrodd ar Ddwyieithrwydd LlCC

Cafodd y cyflwyniad hwn ei sylfaenu ar brofiad sylweddol fel arolygydd cofrestredig annibynnol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd mewn ysgolion dynodedig cyfrwng Cymraeg, ysgolion naturiol ddwyieithog ac ysgolion cyfrwng Saesneg yng Nghymru a phrofiad fel athro ieithoedd modern, tiwtor Cymraeg ailiaith i oedolion ac ymgynghorydd addysgol mewn gwahanol feysydd. Mae'n dilyn trafodaethau gyda phenaethiaid cynradd ac uwchradd, ymgynghorwyr a gwasanaethau ymgynghorol, swyddogion addysg a CBAC.

Mae'r papur yn edrych ar ddwy ffordd y gellir cydnabod dwyieithrwydd yn y sector addysg, ar lefel sefydliad ac ar lefel yr unigolyn, fel y gall yr agweddau mwy cadarnhaol tuag at y Gymraeg, hydynoed yn yr ardaloedd mwy Seisnig, gael eu hannog a'u gwerthfawrogi.

### Diffiniad o ddwyieithrwydd

Mae modd diffinio dwyieithrwydd mewn gwahanol ffyrdd. Mewn ysgolion mewn ardaloedd mwy Seisnig, mae dryswch mewn perthynas â beth yn union a olygir gan y term 'dwyieithrwydd'. Mewn rhai ysgolion, ystyrir bod arwyddion Cymraeg yn adlewyrchu dwyieithrwydd yr ysgol. Mae canllawiau arolygu Estyn yn cyfeirio llawer at wybodaeth dysgwyr o'r Gymraeg a defnyddio'r Gymraeg. Nid dyma beth yw dwyieithrwydd. Mae gan lawer o ysgolion bolisi 'Cymraeg' a pholisi 'Saesneg' neu bolisi 'datblygu iaith', ond nid oes ganddynt bolisi dwyieithrwydd. Mae dwyieithrwydd yn adlewyrchu gallu'r dysgwr, ar lefelau gwahanol, i newid o un iaith i iaith arall, i dderbyn defnydd yn un iaith a phrosesu a chyfleu'r wybodaeth yn yr iaith arall. Gallant hefyd dderbyn gwybodaeth trwy ddefnyddio un sgil iaith megis gwrando a chyfleu'r wybodaeth trwy sgil arall megis ysgrifennu. Mae graddau gwahanol o ddwyieithrwydd a gwahanol gamau o ddwyieithrwydd, ond nid yw'n cael ei werthfawrogi'n gyffredinol nac yn cael ei ddeall yn llawn oddi allan i'r ardaloedd lle siaredir Cymraeg yn rheolaidd neu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

### A) Gwobrwyo ysgolion a cholegau

Mae ysgolion a cholegau'n aml yn derbyn 'gwobrau' am wahanol agweddau o'u gwaith, megis bwyta'n iach, gwobrau 'ysgol werdd' a gwobr ysgolion rhyngwladol ond nid oes gwobr ar raddfeydd gwahanol ar gyfer camau gwahanol o ddwyieithrwydd mewn sefydliadau. Nid oes unrhyw ganllaw eglur ar beth yw'r camau hyn a beth sydd ymhlyg yn hyn. Mae canllawiau eglur ar gyfer addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a'r datblygiad rhyngwladol – gyda arwyddbst hydynoed cyn belled â pha radd arolygu fyddai'n briodol. Nid oes unrhyw ganllaw manwl o'r fath ar gyfer dwyieithrwydd na modd i ysgol gael cydnabyddiaeth safonol am ei hymdrechion i ddilyn canllawiau LlCC a hybu dwyieithrwydd.

Ar lefel sylfaenol, mae ysgolion angen polisi enghreifftiol, rhestr fuddiol o enwau ystafelloedd ac eitemau wedi eu sillafu'n gywir, ymadroddion cyffredin bob dydd a sgwrs fanesol ac yn bwysicach fyth canllawiau manwl ar sut mae hyn yn perthyn i ddatblygiad y Saesneg a'r Gymraeg trwy'r ysgol. Ar y lefel uchaf, byddai sefydliadau yn datblygu myfyrwyr a disgyblion fel eu bod yn bobl ddwyieithog fedrus sy'n hollol hapus i weithio trwy gyfrwng y naill iaith neu'r llall neu i drafod eu bywyd cymdeithasol yn y ddwy iaith. Byddai'r sefydliadau hyn yn darparu cyfleoedd strwythuredig da ar gyfer disgyblion a myfyrwyr i astudio pynciau trwy gyfrwng y ddwy iaith; byddent hefyd yn darparu amrediad o weithgareddau cymdeithasol ac all-gyrsiol yn y ddwy iaith.

Gallai Bwrdd yr Iaith Gymraeg neu sefydliad cyffelyb arolygu'r cynllun gwobr ar lefelau gwahanol ar gyfer ysgolion a cholegau. Gallai cynllun cyffelyb i wobrwyo mentrau preifat, elusennau a chyrff cyhoeddus fod yn ddefnyddiol hefyd, yn enwedig mewn achosion lle mae'r gwaith yn cael ei wneud yn wirfoddol.

**B) Gwobrwyo unigolion**

Mae ein cyfundrefn addysgol yn gwobrwyo hyfedredd yn y Saesneg a'r Gymraeg (mamiaith ac ail iaith). Mae hefyd yn rhoi credyd am 'gyfathrebu' trwy gymwysterau sgiliau allwedd ac fel elfen oddi mewn i Bac Cymru ond nid oes unrhyw ffordd o gydnabod hyfedredd dwyieithog.

Ar hyn o bryd, mae gennym gyfundrefn wedi ei graddoli o wobrwyo hyfedredd mewn cyfathrebu, rhifedd, TGCh, datrys problemau, gweithio gydag eraill a gwella eich dysgu eich hunan ar amryw o lefelau. Yng Nghymru gallem ychwanegu cymhwysedd arall o ddwyieithrwydd Saesneg-Cymraeg a chydnabod hyn gyda chyfundrefn gyffelyb o gydnabyddiaeth ar wahanol lefelau. Byddai modd i ni hefyd gael lefelau rhagarweiniol a chanolradd a fyddai'n addas ar gyfer y cynradd yn ogystal ag addysg uwchradd a thrydyddol. Gallai'r CBAC fod yr awdurdod achredu a byddai, rwy'n sicr â diddordeb mewn ymgymryd â diddordeb mewn ymgymryd â'r gwaith hwn. Byddai'r arbenigedd y byddid yn ei ennill wrth achredu dwyieithrwydd yn ddigon posibl yn rhywbeth y gellid ei allforio i wledydd a chymunedau eraill ar gyfer cyfuniadau eraill o ieithoedd.

**C) Gwella safonau yn y Gymraeg (ail iaith) ar y lefel gynradd**

Mae adroddiadau diweddar Estyn wedi tynnu sylw at yr hyn sy'n ymddangos fel lefel siomedig o fedrusrwydd yn y Gymraeg(ailiaith).

Nid yw'r diffyg llwyddiant ymddangosiadol hwn yn syndod yn y cyd-destun Prydeinig o ddiffyg brwdfrydedd am ddysgu ieithoedd tramor (neu frodorol). Hydynoed pan fo pobl wedi dysgu ychydig o Gymraeg, naill ai yn oedolion neu yn blant, maent yn swil neu amharod i siarad Cymraeg gyda phobl y maent yn gwybod eu bod yn siaradwyr Cymraeg. Y rhai gyda chymhelliant uchel neu sy'n dra hyderus fydd yn dyfalbarhau i ddysgu ac ymarfer eu sgiliau

ail iaith – yn enwedig gan bod siaradwyr Cymraeg yn ceisio 'helpu' ac yn troi i'r Saesneg.

Caiff y Gymraeg ei thanddefnyddio mewn cymunedau megis Caerdydd, Wrecsam a hydynoed Bangor am nad yw un yn gwybod pwy yw'r siaradwyr Cymraeg a Saesneg yw iaith y mwyafrif. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i ddechrau sgwrs yn y Gymraeg gydag unrhyw berson dieithr ac mae hyn yn gynyddol wir mewn llawer o gymunedau gwledig hydynoed bellach.

Mae problemau arbennig yn codi wrth addysgu Cymraeg (ail iaith) mewn ysgolion cynradd.

1. Mewn llawer o ysgolion, ychydig o Gymraeg sydd gan yr athrawon eu hunain, ar waethaf derbyn hyfforddiant diweddar, ac fel maent yn addysgu ar ffin eithaf eu gwybodaeth. Serch eu brwdfrydedd a'u penderfyniad proffesiynol i wneud eu gorau dros eu disgyblion a'u hysgol, mae llawer yn cynnig model iaith gwael.
2. Mewn cymhariaeth â ieithoedd mawr, cymharol fychan yw amrediad deunyddiau addysgu addas ac amrywiol, yn enwedig rhai sy'n apelio at y to ifanc yn yr oes gyfrifiadurol hon.
3. Problem fawr yw bod athrawon ysgol cynradd sy'n addysgu amrediad o bynciau, gydag eithriadau prin, heb y sgiliau arbenigol i addysgu ail iaith, pa un ai ydynt yn siarad Cymraeg ai peidio eu hunain.
4. Mae'n rhaid i'r amser sy'n cael ei argymell ar gyfer addysgu Cymraeg fel ail iaith ffitio i mewn gyda blaenoriaethau dysgu eraill y plentyn ac yn aml mae'n cael ei wasgu.
5. Hyd yn oed pan yw plant wedi dysgu rhywfaint o Gymraeg, cymharol ychydig sydd yna o gyfleoedd iddynt ddefnyddio y sgiliau y maent newyddd eu dysgu yn y dosbarth. Pan gânt y cyfleoedd hyn, maent yn gyfyngedig a heb eu datblygu'n ddigonol e.e. o'r cyfnod sylfaen/ cyfnod allweddol 1 i gyfnod allweddol 2. Mae rhai o'r gweithgareddau a geir yn y sector gynradd e.e. " Seren yr Wythnos" yn cael eu gweld yn yr uwchradd hefyd.

**Ch) Y Gymraeg (ail iaith) yn y sector uwchradd**

Mae rhai o'r ffactorau uchod yn berthnasol hefyd i addysgu'r Gymraeg yn y sector uwchradd er bod athrawon arbenigol ar gael fel rheol. Y problemau arbennig sy'n berthnasol yn yr uwchradd yw:

1. Ailadrodd yn hytrach nag atgyfnerthu'r sgiliau iaith a'r wybodaeth o'r sector gynradd a hyn yn golygu bod llawer o ddysgwyr yn teimlo eu bod yn camu'n ol yn hytrach na symud ymlaen wrth ddysgu'r Gymraeg.
2. Y gofynion cynyddol o ddysgu ail iaith wrth i ddysgwyr symud o fod yn ddechreuwyr i fod yn ddysgwyr iaith canolradd.
3. Gwrthdaro posibl rhwng defnyddio iaith fel sgil bywyd a fel cymhwyster academaidd.
4. 'Amharodrwydd' rhai yn eu harddegau i ymarfer na defnyddio eu sgiliau ail iaith, yn enwedig yn gyhoeddus.

## D) Ffactorau sydd o'n plaid

Ar waethaf yr holl broblemau hyn, mae gennym lawer o ffactorau sy'n gymorth i addysgu'r Gymraeg, megis:

1. Ymdeimlad cyffredinol o ewyllys da tuag at y Gymraeg, hydynoed mewn cymunedau Seisnig. Ar brydiau, mae gennym frwdfrydedd gwirioneddol.
2. Y sylfaen soled i Gymraeg ail iaith a roir bellach mewn llawer o ysgolion yn nwy flynedd gyntaf y Cyfnod Sylfaen.
3. Corff o 'athrawon bro' ac arbenigwyr eraill sy'n gallu ategu'r addysgu yn yr ysgol. Gellid eu defnyddio hefyd i gefnogi dwyieithrwydd mewn ysgolion ac i addysgu athrawon mewn methodoleg addysgu ail iaith.
4. Yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol a sefydliadau cyffelyb sy'n rhoi cyfle i ddisgyblion fwynhau Cymraeg a diwylliant Cymru.
5. Gofyn LlCC bod adrodd ar lefelau Cymraeg (ail iaith) ar ddiwedd cyfnodau 2 a 3 sydd wedi codi ymwybyddiaeth ac wedi sbarduno ysgolion i roi rhagor o sylw i'r Gymraeg.
6. Mae gennym gorff rhyngwladol o arbenigwyr ar ddwyieithrwydd e.e. yng Nghanolfan Bedwyr a'r astudiaethau diddorol dros ben yn adrannau seicoleg a addysg Bangor.
7. Mae gennym hanner can mlynedd a mwy o brofiad o addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector ysgolion
8. Mae gennym sefydliadau eraill fel Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Mentrau Iaith, S4C a CBAC sy'n gallu ymwneud ag agweddau o hybu dwyieithrwydd ac mae ganddynt y profiad o wneud hynny a'r hygrededd hefyd.

## Crynhoi

Mae un diffyg mawr, fodd bynnag. Er bod digon o frwdfrydedd e.e. Dysgwr y Flwyddyn yn y Genedlaethol (ac yn cael ei ddangos ar y teledu), sef nad oes un person unigol neu un sefydliad unigol gyda throsowlg ar yr holl fentrau ac a allai eu gwerthuso a rhannu arfer dda. Yn Lloegr, mae llywodraeth San Steffan wedi penodi 'tsar' iaith dramor i gyd-drefnu dysgu iaith dramor. Gallem fanteisio ar yr un math o feddylfryd unedig yng Nghymru er mwyn harneisio a hybu brwdfrydedd dros yr iaith a'i wneud yn fwy effeithiol ac ar yr un pryd gydnabod a gwrobrwyo sefydliadau ac unigolion am eu llwyddiannau dwyieithog.

Mae perygl gwirioneddol y bydd y momentwm cadarnhaol, cyfredol o safbwynt dysgu Cymraeg (ail iaith) ym mlynyddoedd cynnar y Cyfnod Sylfaen yn cael eu gollli os na chaiff ddigon o gefnogaeth. Nid oes angen i hyn fod yn ddrud – mae angen iddo fod yn effeithlon ac effeithiol.

Ar ben hyn, mae gennym nwyddau y gellid o bosibl eu marchnata o fewn maes addysg a gallem gynnig arbenigaeth i genhedloedd eraill dwy ac amlieithog pe baem yn gallu ffurfioli ein cyfundrefn ein hunain a thracio'r holl gyfraniadau a'r defnyddiau perthnasol.

Diolch yn fawr am eich gwrandawiad
Gareth Wyn Roberts